



Older People's Commissioner for Wales  
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

## **Ffurflen Adborth ar y Fframwaith Gweithredu Drafft**

Defnyddiwch y ffurflen hon i roi'ch sylwadau, eich syniadau a'ch barn ar Fframwaith Gweithredu drafft y Comisiwn.

**Hydref/Tachwedd 2012**

# Cyflwyniad

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn datblygu Fframwaith Gweithredu'r Comisiwn, a fydd yn arwain ein gwaith am y pedair blynedd nesaf.

Mae gwaith y Comisiwn yn seiliedig ar leisiau a dyheadau pobl hŷn felly rydym wedi trefnu'r Fframwaith Gweithredu pedair blynedd drafft yn ôl themâu sydd wedi'u crybwyll ganddynt ac sy'n adlewyrchu eu dyheadau a'r bywydau maent am eu byw.

Gan y bydd y Fframwaith hwn yn arwain ein gwaith dros y pedair blynedd nesaf, rydym yn gwahodd eich syniadau, eich sylwadau a'ch adborth ar y Fframwaith Gweithredu i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysicaf i bobl hŷn a'r hyn sydd angen i'r Comisiwn ei wneud i wella bywydau pobl hŷn yng Nghymru.

Defnyddiwch y ffurflen hon i roi eich sylwadau ar y fframwaith gweithredu arfaethedig. Rydym yn croesawu eich sylwadau, eich syniadau a'ch awgrymiadau ar y canlynol:

- 1. A yw'r pedair thema a nodir yn y fframwaith yn feysydd a fydd yn arwain at ganlyniadau positif i bobl hŷn?**
- 2. A yw'r camau rydym yn cynnig eu cymryd o dan y pedair thema yn briodol?**
- 3. A yw'r gwerthoedd sy'n sail i'n dull gweithredu yn briodol?**

Gallwch hefyd rhoi adborth cyffredinol yn adran 4 ar dudalen 7.

Gofynnir i chi gyflwyno'ch sylwadau, eich syniadau a'ch barn erbyn 3 Rhagfyr 2012.

**Dychweler at**

Nicolette Sutton  
Comisiwn Pobl Hŷn Cymru  
Adeiladau Cambrian  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd CF10 5FL

Neu, gallwch e-bostio eich ymateb i  
[Nicolette.Sutton@olderpeoplewales.com](mailto:Nicolette.Sutton@olderpeoplewales.com)

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu ymholiadau am y cynnwys, neu ein proses ar gyfer datblygu ein Fframwaith Gweithredu, cysylltwch â Nicolette Sutton drwy e-bostio [Nicolette.Sutton@olderpeoplewales.com](mailto:Nicolette.Sutton@olderpeoplewales.com) neu ffonio 08442 640670 (rhif cyfradd lleol).

**Fformatau eraill**

Os hoffech ddefnyddio fformat arall i ymateb neu os oes angen copi o'r Fframwaith Gweithredu drafft neu'r ffurflen adborth mewn fformat arall fel print bras neu Braille, ffoniwch 08442 640670 (rhif cyfradd lleol) i drafod eich anghenion.

Mae'r dogfennau ar gael mewn ieithoedd eraill hefyd drwy gysylltu â [Nicolette.Sutton@olderpeoplewales.com](mailto:Nicolette.Sutton@olderpeoplewales.com) neu ffonio 08442 640670 (rhif cyfradd lleol).

## Adran A – Themâu a Chanlyniadau

Hoffem wybod beth yw eich barn am y pedair thema y credwn a ddylai fod yn sail i ansawdd bywyd da – bywyd â gwerth, ystyr a phwrpas.

- Rwyf yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnaf ac yn fy mharchu
- Gallaf wneud y pethau sy'n bwysig i mi
- Gallaf gael yr help sydd ei angen arnaf
- Rwyf yn byw mewn lle sy'n addas i mi a fy mywyd

### Cwestiwn un

**A yw'r pedair thema a nodir yn y fframwaith yn feysydd a fydd yn arwain at ganlyniadau positif i bobl hŷn?**

(I roi tic yn y blwch, cliciwch fotwm de'r llygoden, yna ewch i 'priedweddau' a dewiswch 'wedi'i dicio'.)

Nac ydynt

Ydynt

Defnyddiwch y blwch testun isod os oes gennych sylwadau pellach.

Er enghraifft:

- O'ch safbwynt chi a yw'r themâu yn adlewyrchu'r canlyniadau sydd bwysicaf i bobl hŷn?
- A oes canlyniadau neu themâu eraill yr ydych yn credu y dylid eu cynnwys?

## Adran B – Camau Arfaethedig

Hoffem wybod a ydych yn credu a yw'r camau rydym wedi'u nodi ar gyfer y Comisiwn yn rhai priodol. A yw'r rhain yn gamau yr ydych yn credu y dylai'r Comisiwn fod yn canolbwyntio arnynt?

### Cwestiwn dau

**A yw'r camau rydym yn cynnig eu cymryd o dan y pedair thema yn briodol?**

(I roi tic yn y blwch, cliciwch fotwm de'r llygoden, yna ewch i 'priedweddau' a dewiswch 'wedi'i dicio'.)

Nac ydynt

Ydynt

Defnyddiwch y blwch testun isod os oes gennych sylwadau pellach.

Er enghraifft:

- A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno'n gryf ag unrhyw rai o'r cyd-destunau neu'r heriau a amlinellwyd gennym?
- A hoffech chi weld newidiadau i unrhyw rai o'r camau a nodwyd gennym?

Mae Dyfodol i'r Iaith yn croesawu'r cyfle i ymateb i Fframwaith Gweithredu ddrafft y Comisiynydd Pobl Hŷn. Mae Dyfodol i'r Iaith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles yr iaith Gymraeg mewn dulliau cyfansoddiadol.

Gallwn groesawu hanfod y Fframwaith ddrafft fel cam pwysig i sicrhau lles pobl hŷn yng Nghymru ond rydym yn siomedig tu hwnt nad oes unrhyw gyfeiriad yn y ddogfen at faterion yn ymwneud â iaith a'r angen i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael y gofal, y gwasanaeth a'r parch y mae nhw'n ei haeddu yn y Gymraeg, neu yn ddwyieithog, yn ôl eu dymuniad a'u hangen personol.

Ychydig iawn o sylw sydd yn y fframwaith at y ffaith bod nifer sylweddol o bobl hŷn yn byw gyda chyflyrau iechyd hir-dymor. Mae nifer o'r

cyflyrau hyn, megis strôc, dementia, clefyd Parkinsons ac ati, yn gallu cael effaith ar allu person i gyfathrebu. Yn aml gwelwn bod pobl yn colli gfael ar yr ieithoedd y mae nhw wedi eu dysgu fel ail neu drydedd iaith a dim ond yn gallu cyfathrebu yn eu mamiaith. Yn y fath sefyllfa mae medru cael gofal yn y Gymraeg yn angen clinigol yn hytrach nag yn ddewis.

Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru “Mwy na Geiriau” sef eu fframwaith strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Gofal a Iechyd. Mae'r ddogfen honno yn datgan yn glir fod angen i wasanaeth wneud *cynnig rhagweithiol fel nad yw pobl yn gorfod gofyn am ystyriaeth i'w hanghenion iaith*. Yn hytrach, nodir mae *cyfrifoldeb y gwasanaeth bob amser yw cynnig dewis iaith*. Hoffwn weld yr egwyddor hon yn cael ei hymgorffori yn Fframwaith Gweithredu y Comisiynydd Pobl Hŷn.

Themâu:

*Rwyf yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnaf ac yn fy mharchu:*

Mae angen cyfeiriad penodol at y Gymraeg yn yr adran hon. Mae rhoi cyfle i bobl hŷn i fynegi eu hunain yn eu dewis iaith yn ran annatod o'r uchod, a cytunwn bod cyfyngu ar ddewis iaith yn niweidiol i hyder, hunan barch a lles. Argymhellwn felly fod cynnwys cyfleoedd i bobl fynegi eu hunain, naill ai yn y Gymraeg, neu yn y Saesneg, neu yn ddwyieithog yn rywbeth ddylid ei gynnwys o dan y thema yma.

*Gallaf wneud y pethau sy'n bwysig i mi:*

Unwaith eto mae angen cyfeiriad penodol yn yr adran hon at sicrhau cyfleon i bobl hŷn fedru cymdeithasu, dysgu, gwrifoddoli ac ati yn y Gymraeg.

*Gallaf gael yr help sydd ei angen arnaf, pan fo'i angen, yn y ffordd rwyf ei angen:*

Yn yr adran hon mae angen rhoi pwyslais penodol ar sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn yn cael eu darparu yn y Gymraeg, neu yn ddwyieithog. Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg gyfrifoldebau penodol yn y maes hwn o ran sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â

safonau iaith. Ond yn ogystal, mae gan y Comisiynydd Pobl Hŷn gyfrifoldeb fel eiriolwr ar ran pobl hŷn i sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i'r agenda parch ag urddas yng nghyswllt gwasanaethau gofal a iechyd i bobl hŷn.

*Rwyf yn byw mewn lle sy'n addas i mi a fy mywyd:*

Mae angen cyfeiriad penodol at y Gymraeg yn yr adran hon yn arbennig yng nghyswllt darparu ar gyfer anghenion pobl sy'n symud i gartref gofal neu nyrsio. Mae angen i'r Comisiynydd Pobl Hŷn sicrhau bod anghenion preswylwyr cartrefi gofal sy'n siarad Cymraeg yn cael eu diwallu. Yn ddiweddar rydym wedi clywed hanes un gwr oedrannus oedd yn byw mewn cartref nyrsio yng ngogledd Cymru ac eisiau gwyllo darllediadau o'r Eisteddfod Genedlaethol ar S4C ar y teledu yn y lolfa. Fe gwynodd staff y cartref eu bod yn gorfod troi'r teledu i'r gwasanaeth Cymraeg, er bod y rhan fwyaf o'r preswylwyr yn siarad Cymraeg ac hefyd yn awyddus i wyllo'r Eisteddfod ar y teledu. Mae agweddau ac ymddygiad o'r fath yn annerbyniol ac yn ein barn ni fe ddylai'r Comisiynydd Pobl Hŷn fod yn amddiffyn hawl pobl hŷn i fedru byw eu bywydau yn y Gymraeg mewn cartrefi gofal os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.



## **Adran C – Gwerthoedd**

Fel rhanddeiliad allweddol, hoffem wybod a ydych chi'n credu mai'r gwerthoedd yr ydym yn cynnig eu defnyddio fel sail ac i yrru ein busnes yw'r rhai cywir.

### **Cwestiwn tri**

#### **A yw'r gwerthoedd sy'n sail i'n dull gweithredu yn briodol?**

(I roi tic yn y blwch, cliciwch fotwm de'r llygoden, yna ewch i 'priedweddau' a dewiswch 'wedi'i dicio'.)

Nac ydynt

Ydynt

Defnyddiwch y blwch testun isod os oes gennych sylwadau pellach.

Er enghraifft:

- A oes gwerthoedd ychwanegol y credwch a ddylai fod yn sail i'n gwaith?
- A ydych chi'n anghytuno ag unrhyw rai o'r gwerthoedd, os ydych, pam?

Mae angen sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei chynnwys yn yr ail bwynt bwled.



## **Adran D – Sylwadau Cyffredinol**

Rydym yn awyddus i glywed eich barn, eich sylwadau a'ch adborth cyffredinol. Defnyddiwch y blwch testun isod i roi unrhyw sylwadau pellach.

Rydym yn mawr obeithio y bydd y Comisiynydd yn rhoi sylw priodol a phenodol i'r iaith Gymraeg yn y Fframwaith Gweithredu. Rydym yn croesawu'r ffaith ei bod wedi cynnwys adrannau arbennig ar y Gymraeg yn ei hadroddiadau ar Eiriolaeth a Gofal ac Urddas mewn ysbytai. Hyderwn y bydd y Gymraeg yn cael ei gynnwys fel rhan greiddiol o'r Fframwaith Gweithredu.



## Adran E – Manylion Cyswllt

A fydddech cystal â rhoi eich manylion cyswllt isod er mwyn i ni allu cysylltu â chi os bydd gennym unrhyw gwestiynau am y sylwadau a'r adborth yr ydych wedi'u darparu.

Enw	Elin Walker Jones, Elin Wyn a Beti George
Sefydliad neu grŵp (os yw'n berthnasol)	Dyfodol i'r laith
Rhif ffôn	029 2056 1192
Cyfeiriad	d/o 17 Bernard Avenue, Treganna, Caerdydd
Cod post	CF5 1BT
Cyfeiriad e-bost (os yw'n berthnasol)	post@dyfodol.net
Sut clywsoch chi am Fframwaith Gweithredu'r Comisiynydd?	
Gwefan.	

**Diolch yn fawr am ymateb. Bydd eich sylwadau a'r adborth yn cael eu defnyddio fel sail i gamau nesaf y broses o ddatblygu'r Fframwaith Gweithredu cyn cwblhau'r cynllun yn gynnar yn 2013.**